



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Canllaw ar CPH Tir Comin

Rheolau Newydd

Mawrth 2020

Ychwanegu Tir Comin at CPH

Cafodd y rheolau CPH presennol eu cyflwyno yn 2016 ac mae disgwyl i bawb yng Nghymru sy'n cadw da byw gadw atynt. Bydd angen i bob daliad sy'n cael defnyddio tir comin h.y. sydd â hawliau cofrestredig, ac sy'n defnyddio'r comin i bori da byw, gadw at y rheolau CPH presennol er mwyn cydymffurfio â'r rheolau ar symud da byw.

Os oedd ganddo Gysylltiad Tir Comin, roedd ceidwad da byw yn cael symud anifeiliaid i dir comin, o dan rai amodau penodol, heb fod angen trwydded symud na chofnodi symudiad.

Nid yw'r Cysylltiadau Tir Comin yn gyson mwyach â'r rheolau CPH presennol.

Nawr, rhaid i geidwaid da byw gofnodi'r tir maen nhw'n cadw da byw arno, gan gynnwys tir comin, yn Rheoli fy CPH.

O dan y rheolau presennol, mae'r gofynion o ran rhoi gwybod am symudiad, gwahardd symudiadau a rhywogaethau unigol i gyd yn dibynnu a yw'r tir comin yn ffinio â'r Prif Leoliad Cynhyrchu neu beidio. Rhaid i'r tir comin ddod yn rhan o'r CPH cyn symud y da byw i'r tir comin.

Nodi'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL)

Mae nodi ble mae'r Prif Leoliad Cynhyrchu yn rhan bwysig o broses mapio'r CPH. Bydd yn dangos a yw'r tir comin yn ffinio neu beidio ac a fydd angen rhoi gwybod i'r awdurdodau am symudiadau anifeiliaid i ac o'r tir comin.

Wrth nodi'r PPL, **rhaid** adlewyrchu'r union ddefnydd a wneir o'r daliad ac ni ddylech ei ddewis yn unswydd er mwyn cael lleoliad sy'n ffinio â'r tir comin.

Rhaid nodi'r Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) yn unol â'r rheolau canlynol:

- Y PPL yw lleoliad yr adeiladau da byw / parlwr godro / prif gyfleusterau trafod at ddibenion iechyd a lles anifeiliaid / hwsmonaeth.
- Os nad oes adeiladau / cyfleusterau (h.y. yn achos daliad eang), y PPL fydd man crynhoi'r anifeiliaid.
- Lleoliad y rhan fwyaf o'r tir sy'n eiddo ichi neu ar rent tymor hir.
- Ambell waith, os nad oes gan y ceidwad unrhyw dir wedi'i amgáu ac mai dim ond hawliau pori sydd ganddo, y cyfeiriad gohebu fydd y PPL.

Rhaid peidio â symud y PPL unwaith y byddwch wedi dechrau defnyddio Rheoli fy CPH oni bai bod y modd y defnyddir y daliad wedi newid yn sylweddol. Bydd gofyn i'r ceidwad ddangos tystiolaeth o'r newidiadau hyn i'r RPW er mwyn cael adolygu sefyllfa'r daliad.

Tir Comin sy'n Ffinio â'r PPL

Bydd Prif Leoliad Cynhyrchu'r ceidwad da byw yn ffinio â'r tir comin pan fydd yn rhannu ffin â'r tir comin. Unwaith y byddwch wedi dewis y Tarddle ar-lein ar Rheoli fy CPH, caiff ei gofnodi'n awtomatig.

Os bydd heol neu afon yn gwahanu'r Prif Leoliad Cynhyrchu, mae'n bosib na fydd y system mapio yn cofnodi bod y daliad yn ffinio â'r tir comin. Os digwydd hyn, gall RPW ei gywiro. Gellir cysylltu'r tir os yw'n glir mai'r trac, llwybr, heol, twnel neu afon neu nodwedd arall yw'r unig beth sy'n rhwystro'r tir rhag ffinio â'r tir comin.

Tir comin sydd ddim yn ffinio â'r PPL

Os nad yw PPL y ceidwad da byw a'r tir comin yn rhannu ffin, nid ydynt yn ffinio â'i gilydd. Nid yw ei dir yn ffinio mewn unrhyw ffordd â'r tir comin ac o dan amgylchiadau cyffredin, byddai'n rhaid cludo/gyrru'r anifeiliaid rhwng y tir comin a'r PPL. Os gwelir bod rhaid i'r ceidwad gludo neu yrru'r anifeiliaid i'r tir comin, yna ni ellir ystyried bod y PPL a'r tir comin yn ffinio â'i gilydd.

Os bydd yn rhaid mynd â'r anifeiliaid trwy dir nad yw o dan reolaeth ceidwad y da byw er mwyn cael mynd i'r tir comin, ni ellir ystyried eu bod yn ffinio, hyd yn oed os na ddefnyddir y tir yr eir trwyddo at ddibenion amaeth (e.e. coedwigaeth).

O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid neilltuo rhif CPH tir comin sy'n benodol i rywogaeth i'r ceidwad a rhaid rhoi gwybod am symudiadau. Gweler isod am wybodaeth am anifeiliaid penodol. Gweler senario 2.

Gwybodaeth am Symud Rhywogaethau Penodol

Defaid/Geifr

Os byddwch yn symud anifeiliaid rhwng tir comin a phrif ddaliad sy'n **ffinio** â'i gilydd ac sydd â'r un rhif CPH, ni fydd angen rhoi gwybod am hynny gan yr ystyrir bod y tir comin yn rhan o'r prif ddaliad.

Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau i ac o dir comin **sydd ddim yn ffinio**, gan nodi'r rhif CPH penodol i ddefaid a gawsoch gan RPW (00/000/xxxx). Rhaid i'r ceidwad anfon neges ar-lein at RPW neu ffonio'r ganolfan cwsmeriaid gyda manylion y tir comin nad yw'n ffinio er mwyn cofrestru â RPW ei fod yn pori defaid arno. Bydd angen rhif CPH tir comin gwahanol ar gyfer pob comin sydd ddim yn ffinio.

Rhaid cofnodi'r symudiad yn llyfr y ddiadell a rhoi gwybod amdano trwy EIDCymru neu drwydded/dogfen symud (AML1). **Rhaid** gofalu bod yr anifeiliaid wedi'u tagio cyn eu symud i'r tir comin.

Pan fydd anifeiliaid yn dychwelyd o dir comin, boed hwnnw'n ffinio neu ddim yn ffinio, bydd gwaharddiad ar bob symudiad i unrhyw le arall heblaw am fynd yn ôl i'r tir comin. Rhaid i bob symudiad i ac o'r tir comin fynd trwy CPH y ceidwad.

Gwartheg

Cyn symud unrhyw wartheg i **unrhyw** dir comin, rhaid cynnal Prawf Cyn Symud. Mae gofyn i geidwaid sy'n pori eu gwartheg ar dir comin gysylltu ag APHA cyn symud unrhyw wartheg er mwyn trafod gofynion profi TB. Byddwn yn rhoi gwybod i APHA am bob ceidwad gwartheg sy'n ychwanegu tir comin at ei CPH.

Os byddwch yn symud anifeiliaid rhwng tir comin a phrif ddaliad sy'n ffinio â'i gilydd ac sydd â'r un rhif CPH, ni fydd angen rhoi gwybod am hynny gan yr ystyrir bod y tir comin yn rhan o'r prif ddaliad.

Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau i ac o dir comin sydd ddim yn ffinio, gan nodi'r rhif CPH penodol i wartheg a gawsoch gan RPW (00/000/xxxx) ac sydd wedi'i gofnodi yng nghofrestr y daliad ac y cafodd y BCMS wybod amdano. Bydd angen rhif CPH tir comin gwahanol ar gyfer pob comin sydd ddim yn ffinio.

Pan fydd anifeiliaid yn dychwelyd o dir comin – boed hwnnw'n **ffinio** neu ddim yn ffinio - bydd gwaharddiad ar bob symudiad i unrhyw le arall heblaw am fynd yn ôl i'r tir comin. Rhaid i bob symudiad i ac o'r tir comin fynd trwy CPH y ceidwad.

Os ceir achos o TB mewn unrhyw ran o ddaliad, gan gynnwys tir comin cyffiniol, bydd gofyn cynnal unrhyw gyfyngiadau symud neu brofion TB ar yr holl barseili tir yn y CPH. APHA fydd yn gofyn am asesiadau o achosion TB ar dir comin, yn unol â'r arfer.

Tir Comin ag un porwr

Os mai un porwr sydd â'r hawl i bori'r tir comin, rhaid cadw at y rheolau ar gyfer unig borwyr a geir yn llawlyfrau'r CPH. Rhaid i'r ceidwad da byw ddatgan:

- Bod y darn o dir comin wedi'i amgáu gan ffens sy'n ddiogel rhag stoc, sydd wedi bod yno ers 10 mlynedd neu fwy, neu fod cydsyniad Adran 38 (neu gyfatebol) wedi'i roi.
- Dim ond un porwr cofrestredig sydd ar y rhan o'r tir comin sydd wedi'i amgáu neu os oes mwy nag un porwr, y ceidwad sy'n datgan yw'r unig borwr sydd wedi, neu sydd wedi ceisio, troi anifeiliaid allan i bori ar y darn sydd wedi'i amgáu yn y 10 mlynedd diwethaf.
- Mae'r defnydd o'r darn o'r tir comin sydd wedi'i amgáu yn parhau i ddibynnu ar nifer yr hawliau cofrestredig sydd ar y darn hwnnw.
- Mae'n rhaid i'r rhan sy'n weddill o'r tir comin y tu allan i'r darn sydd wedi'i amgáu fod yn addas ar gyfer hawliau cofrestredig gweddill y tir comin yn gyfan, gyda chyfeiriad arbennig at ddifrod amgylcheddol yn sgil pori.
- Bydd y ceidwad yn gyfrifol am hysbysu RPW am unrhyw newidiadau yn yr amgylchiadau, yn enwedig os yw porwr arall yn troi, neu'n ceisio troi anifeiliaid allan i bori ar y darn wedi'i amgáu.
- Bydd y darn wedi'i amgáu yn cael ei drin fel unrhyw ddarn arall o dir o fewn rheolau busnes y CPH ar gyfer cofnodi symudiadau da byw, gan gynnwys y diffiniad o 'unig feddiannydd'.

Cyn belled â bod RPW wedi cael gwybod ei fod yn gomin un porwr, yna mae ar gael i'r porwr ei ddewis fel unrhyw barsel arall o dir. Os na fydd RPW wedi cael gwybod am y comin un porwr, rhaid rhoi tystiolaeth i RPW er mwyn gallu ei gynnwys.


Senarios Enghreifftiol

Senario 1 – daliad sy'n ffinio

Mae'r Prif Leoliad Cynhyrchu yn ffinio â'r tir comin ac nid oes afon na heol rhyngddo a'r tir comin.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau:

- Nid oes angen rhoi gwybod i neb am symudiadau rhwng y tir comin a'r Prif Leoliad Cynhyrchu.



Senario 2 – afon neu drac yn rhannu'r Prif Leoliad Cynhyrchu


Mae'r PPL ym Mloc 1 (ymyl gwyrdd). Mae Bloc 1 a Bloc 2 yn ffurfio rhan o'r prif CPH ond mae trac yn eu gwahanu. Mae'r tir comin yn rhannu ffin â Bloc 2 sy'n golygu na ellir ystyried ei fod yn ffinio o dan y rheolau presennol. Mae RPW yn cael adolygu achosion fel hyn.

Bydd angen i'r ceidwad roi'r wybodaeth a ganlyn:

- Enw a rhif y tir comin.
- Manylion yr hyn sy'n rhannu'r tir comin a'r PPL.
- Anfonwch neges at RPW ar-lein o dan y teitl a ganlyn: PPL wedi'i rannu gan heol, trac neu afon.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau:

- Os bydd RPW wedi adolygu'r sefyllfa a barnu eu bod yn ffinio, yna nid oes gofyn rhoi gwybod am unrhyw symudiadau;
- Os bernir nad ydynt yn ffinio â'i gilydd, rhaid rhoi gwybod am symudiadau gan nodi'r rhif CPH sy'n benodol i rywogaeth.



NI CHEWCH SYMUD UNRHYW ANIFEILIAID NES ICHI GAEL CADARNHAD trwy'ch cyfrif RPW, o ganlyniad eich cais i gael ffinio â thir comin.

Senario 3 – heol neu drac yn gwahanu'r PPL a'r tir comin

Mae'r Prif Leoliad Cynhyrchu a'r tir comin yn rhannu ffin sy'n heol neu'n afon. Ni ellir ystyried felly eu bod yn ffinio â'i gilydd.


Bydd RPW yn ailedrych ar sefyllfa'r daliad i weld a ellir ystyried eu bod yn ffinio. Ystyrir hefyd a fydd modd mynd â'r anifeiliaid dros y ffin yn ddiogel. Bydd angen i geidwad anfon neges at RPW gyda manylion y tir comin y mae am iddo ffinio â'r PPL ac unrhyw wybodaeth ychwanegol am y rhwystr.

Bydd angen i'r ceidwad roi'r wybodaeth a ganlyn:

- Enw a rhif y tir comin.
- Manylion yr hyn sy'n rhannu'r tir comin a'r PPL.
- Anfonwch neges at RPW ar-lein o dan y teitl a ganlyn: Tir comin wedi'i wahanu gan heol, trac neu afon.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau :

- Os bydd RPW wedi adolygu'r sefyllfa a barnu eu bod yn ffinio, yna nid oes gofyn rhoi gwybod am unrhyw symudiadau;
- Os bernir nad ydynt yn ffinio â'i gilydd, rhaid rhoi gwybod am symudiadau gan nodi'r rhif CPH sy'n benodol i rywogaeth.



NI CHEWCH SYMUD UNRHYW ANIFEILIAID NES ICHI GAEL CADARNHAD trwy'ch cyfrif RPW, o ganlyniad eich cais i gael ffinio â thir comin.

Senario 4 – Tir comin sydd ddim yn ffinio â'r PPL

Nid yw'r tir comin yn ffinio â'r Prif Leoliad Cynhyrchu. Mae'r tir comin yn ffinio â bloc arall o dir ond gan nad y PPL yw hwnnw, nid ydynt yn ffinio â'i gilydd.


Mae'r CPH yn cynnwys Bloc 1 lle mae'r PPL, a thir ym Bloc 2. Mae'r holl dir o fewn 10 milltir. Gan fod y tir comin yn ffinio â bloc 2 ac nid â'r PPL, ni fydd modd eu huno a bydd angen ichi ofyn am CPH tir comin trwy gysylltu â'r ganolfan gwsmeriaid ar eich cyfrif RPW Ar-lein. Neu, fel arall, os yw'r lleoliad yn addas, gellir cael CPH ar wahân ar gyfer Bloc 2. Ond cofiwch, bydd hyn yn effeithio ar y drefn gwahardd symudiadau a rhoi gwybod am symudiadau.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau:

- Rhaid rhoi gwybod am symudiadau i'r tir comin gan nodi rhif CPH y tir comin sy'n benodol i rywogaeth;

neu

- Gallech ofyn am ail CPH, ar gyfer Bloc 2 (sy'n ffinio â'r tir comin). Ni fydd angen rhoi gwybod am symudiadau i'r tir comin o Bloc 2 ond bydd yn rhaid rhoi gwybod am symudiadau rhwng Bloc 1 a Bloc 2.




Senario 5 – Yn ffinio â thir comin arall

Mae'r Prif Leoliad Cynhyrchu yn ffinio â thir comin, sydd yn ei dro yn ffinio â thir comin arall.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau:

- Ni fydd angen rhoi gwybod am symudiadau i'r tir comin arall gan ei fod yn ffinio â'r tir comin, cyn belled nad oes ffin ffisegol rhwng tiroedd comin CL1 a CL2.



Senario 6 – Daliadau ychwanegol y tu allan i'r terfyn 10 milltir ac nad ydynt yn ffinio â mwy nag un tir comin

Mae 2 ddaliad ar y fferm, fwy nag 10 milltir oddi wrth ei gilydd a bydd angen rhifau CPH ar wahân arnynt. Nid yw'r tir comin yn ffinio â'r naill na'r llall ac nid oes modd eu huno.

Y gofynion o ran rhoi gwybod am symudiadau:

- Bydd angen rhoi gwybod am symudiadau i'r tir comin o'r ddau CPH;
- Bydd angen rhoi gwybod hefyd am symudiadau rhwng y 2 CPH;
- Rhaid i symudiadau rhwng tiroedd comin fynd trwy CPH y Prif Leoliad Cynhyrchu yn gyntaf.

